Embargoed until 00.01am on Tuesday 20 October
Fersiwn Cymraeg is lawr

New coalition seeks to wipe out fuel poverty

Campaigners across Wales have come together to end the scourge of fuel poverty in Wales.

The new Wales Fuel Poverty Coalition is led by Consumer Focus Wales and NEA Cymru and includes a dozen major campaign groups.

The coalition will launch a charter for fuel poverty in Wales today (October 20) at the Norwegian Church, presenting it to Environment Minister Jane Davidson, who has responsibility for fuel poverty in Wales.

The Charter calls for:
1. A detailed action plan setting out how and when fuel poverty will be eradicated in Wales;
2. Support for all fuel poor households to stay warm – until fuel poverty is eradicated;
3. A co-ordinated and united approach across the statutory sector (at UK and Wales level) that involves partners from the private, voluntary and community sectors in Wales.

Nuria Zolle, Director of NEA Cymru and chair of the coalition, said: "The coalition has gathered in the belief that it is essential and achievable for fuel poverty to be eradicated in Wales by 2018. The organisation calls for a fundamental change of stance at the higher national level as well as the local.

"No-one is in favour of fuel poverty – but without a concerted and co-ordinated action plan, and support for those suffering, we will still be living with it in a decade's time. The coalition has come together to say now is the time for action."

The Charter launch comes just weeks before the Assembly Government is expected to publish a new strategy to tackle fuel poverty in Wales.

Partners in the coalition's launch include: Citizens Advice Cymru, Age Concern Cymru & Help the Aged in Wales, Community Housing Cymru, Children in Wales, West Wales Eco Centre, Macmillan Cancer Support, Shelter Cymru, Disability Wales, Oxfam Cymru, Care & Repair Cymru, End Child Poverty Network Cymru, NEA Cymru and Consumer Focus Wales.

Maria Battle, Senior Director of Consumer Focus Wales, added: "The three simple messages in the fuel poverty charter for Wales are a clear call to action for governments in Westminster and Cardiff Bay, to our local authorities, and to all of us who care about people in Wales.

“Too many people in Wales are having to choose this winter between heating and eating. Too many people, including children, are suffering the direct and indirect effects of fuel poverty. We believe no-one in Wales should have to live in a cold home. We need to take urgent action, particularly in these difficult economic times, if we are to build a Wales where fuel poverty is a part of our history – not of our present.”

Notes:
The full charter can be seen by clicking here www.fuelpovertycharter.org.uk

Around 320,000 households in Wales experience fuel poverty.
This means that they would need to spend 10% or more of their income on energy to adequately heat the home.
In Wales, high energy prices are compounded by poor housing stock, a high incidence of poverty and low income, and a high proportion of homes not connected to the gas network.

Case studies will be available for the media.

For more details, or to arrange interviews with any of the partner organisations, including Welsh language interviews, contact: Gareth Price on 029 2078 7113

Embargo tan 00.01yb ar ddydd Mawrth 20fed Hydref

Cynghrair newydd yn ceisio dileu tlodi tanwydd

Mae ymgyrchwyr o bob cwr o Gymru wedi dod at ei gilydd i ddileu problem arswydus tlodi tanwydd yng Nghymru.

Caiff Cynghrair Tlodi Tanwydd newydd Cymru ei arwain gan Lais Defnyddwyr Cymru ac NEA Cymru, ac mae’n cynnwys deuddeg o grwpiau ymgyrchu pwysig.

Heddiw (20 Hydref), bydd y cynghrair yn lansio siarter tlodi tanwydd Cymru yn yr Eglwys Norwyaidd. Caiff y siarter ei chyflwyno i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson, sydd â chyfrifoldeb am dlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae’r siarter yn galw am y canlynol:
1. Cynllun gweithredu manwl sy’n dangos sut a phryd y caiff tlodi tanwydd ei ddileu yng Nghymru;
2. Cymorth a fydd yn galluogi pob aelwyd sy’n dioddef tlodi tanwydd i gadw’n gynnes – hyd nes y caiff tlodi tanwydd ei ddileu;

3. Dull unedig a chydlynol o weithredu ar draws y sector statudol (ar lefel y DU ac ar lefel Cymru) sy'n cynnwys partneriaid o'r sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol yng Nghymru.

Meddai Nuria Zolle, Cyfarwyddwr NEA Cymru a chadeirydd y cynghrair: "Mae'r cynghrair wedi'i greu am ein bod yn credu ei bod yn hanfodol dileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018, ac am ein bod yn credu bod hynny'n nod y gellir ei wireddu. Mae'r cynghrair yn galw am newid safbwynt sylfaenol, nid yn unig ar lefel leol ond yn uwch ar lefel genedlaethol hefyd.

"Nid oes neb o blaid tlodi tanwydd – ond heb gynllun gweithredu pendant sydd wedi'i gydlynu, a chymorth i'r rheiny sy'n dioddef, byddwn yn dal i fyw â'r broblem hon ymhen degawd. Mae aelodau'r cynghrair wedi dod ynghyd i ddweud ei bod hi'n bryd gweithredu."

Caiff y siarter ei lansio wythnosau'n unig cyn bod disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi strategaeth newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae'r partneriaid sy'n rhan o ddigwyddiad lansio'r cynghrair yn cynnwys: Cyngor ar Bopeth Cymru, Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Plant yng Nghymru, Canolfan Eco Gorllewin Cymru, Cymorth Canser Macmillan, Shelter Cymru, Anabledd Cymru, Oxfam Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, NEA Cymru a Llais Defnyddwyr Cymru.

Ychwanegodd Maria Battle, Uwch Gyfarwyddwr Llais Defnyddwyr Cymru: "Ceir tair neges syml yn siarter tlodi tanwydd Cymru, sy'n galw'n glir am weithredu gan y llywodraethau sydd yn San Steffan a Bae Caerdydd, ein hawdurdodau lleol, a phob un ohonom sy'n poeni am bobl yng Nghymru.

"Y gaeaf hwn, bydd gormod o bobl yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartrefi a rhoi bwyd ar y bwrdd. Mae gormod o bobl, gan gynnwys plant, yn dioddef o ganlyniad i effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol tlodi tanwydd. Rydym o'r farn na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod byw mewn cartref oer. Mae angen i ni weithredu ar fyrder os ydym am greu gwlad lle mae tlodi tanwydd yn rhan o'r gorffennol yn hytrach na'r presennol, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o gyni economaidd."

Nodiadau:
Gellir gweld y siarter lawn trwy glicio ar y ddolen ganlynol
www.fuelpovertycharter.org.uk

Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar tua 320,000 o gartrefi yng Nghymru.
Mae hynny'n golygu y byddai angen iddynt wario 10% neu fwy o'u hincwm ar ynni i wresogi eu cartref yn ddigonol.
Yng Nghymru, caiff problem prisiau ynni uchel ei dwysáu gan stoc dai sydd mewn cyflwr gwael, y ffaith bod llawer o bobl yn dlawd ac ar incwm isel, a'r ffaith nad yw llawer iawn o dai wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy.

Darperir astudiaethau achos i'r cyfryngau.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu drefnu cyfweliadau ag unrhyw un o'r sefydliadau sy'n rhan o'r cynghrair, gan gynnwys cyfweliadau Cymraeg, cysylltwch â: Gareth Price ar 029 2078 7113